


Leonardo da Vinci: Dyn y Darluniau

1 Chwefror–6 Mai 2019

Gwybodaeth i athrawon ac arweinwyr grŵp

Bydd yr adnodd hwn yn gymorth ar ymweliadau hunan-dywys ag arddangosfa *Leonardo da Vinci: Dyn y Darluniau* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.



Leonardo da Vinci, *Y sgerbwdd*, tua 1510-11 RCIN 919012r, Ymddiriedolaeth y Casgliad Brenhinol/© Ei Mawrhydi y Frenhines Elisabeth II 2018

Leonardo da Vinci: Dyn y Darluniau

I nodi 500 mlynedd ers marwolaeth Leonardo da Vinci, byddwn yn arddangos deuddeg o ddarluniau gorau'r athrylith fel rhan o #Leonardo500 – dathliad cenedlaethol o'r artist anhygoel hwn. Daw'r darluniau o'r [Casgliad Brenhinol](#), sy'n cynnwys casgliad gorau'r byd o waith Leonardo.

Ym mis Chwefror 2019, bydd 144 o ddarluniau gwych Leonardo i'w gweld mewn 12 arddangosfa sy'n digwydd yr un adeg ar draws y DU, gan gynnwys Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Yn dilyn yr arddangosfeydd hyn, bydd arddangosfeydd mawr yn Oriolau'r Frenhines, Palas Buckingham, a Phalas Holyrood House yng Nghaeredin.

Mae'r gweithiau gaiff eu dangos wedi'u dewis i adlewyrchu holl ddiddordebau Leonardo da Vinci – paentio, cerfluniau, pensaernïaeth, cerddoriaeth, anatomeg, peirianeg, cartograffeg, daeareg a botaneg – yn ogystal â'i ddefnydd o wahanol gyfryngau, yn ysgrifbin ac inc, sialc coch a du, dyfrlliw a phwyntil metel.

<https://www.rct.uk/collection/themes/exhibitions/leonardo-da-vinci-a-life-in-drawing/national-museum-of-wales-cardiff>

CELF NEU WYDDONIAETH?

Ynghyd ag arddangosfa Leonardo, rydym hefyd yn dangos detholiad o weithiau o gasgliadau Celf a Hanes Natur Amgueddfa Cymru, yn ogystal â benthyciadau o Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Caerdydd.

Mae'r arddangosfa hon yn edrych ar y berthynas rhwng celf a gwyddoniaeth.

Mae artistiaid wedi bod yn astudio gwneuthuriad pethau byw ers blynyddoedd, gan obeithio eu portreadu yn realistig ac yn llawn mynegiant. Aeth rhai artistiaid yn eu blaenau i fod yn wyddonwyr uchel eu parch.

Mae gwyddonwyr hefyd wedi defnyddio sawl techneg artistig I geisio archwilio ffurfiau naturiol cymhleth, tri dimensiwn.

Ymysg y gweithiau sydd i'w gweld mae darluniau gan Rembrandt ac Augustus John, cerflun gan Degas, modelau cwyr botanegol, a thacsidermi.

TOCYNNAU

Rhaid cael tocyn ar gyfer yr arddangosfa. Rhaid i grwpiau archebu ymweliad ymlaen llaw.

Ar ddiwrnod eich ymweliad, rhaid i chi fynd at y dderbynfa i adael i ni wybod eich bod wedi cyrraedd, cyn mynd i'r siop i gasglu'r tocynnau.

£5 i oedolion / £4 gostyngiadau / 16 ac iau am ddim.

Grwpiau 16 oed ac iau AM DDIM.

Mae mynediad am ddim i athrawon gyda grŵp ac arweinwyr grŵp.

Ymweliad i bara 1 awr ar y mwyaf. Gofynnwn i chi gyrraedd 5 munud cyn eich slot amser.

Swyddfa Addysg – archebu ac ymholiadau cyffredinol

Ffôn: (029) 2057 3240

addysg@amgueddfacymru.ac.uk

Lleoliad

Mae'r arddangosfa yn oriel 9, yn y Casgliadau Celf Hanesyddol a Thirluniau.

Mae gwybodaeth i ysgolion ynghylch ymweld â'n horielau parhaol i'w cael yma:

<https://amgueddfa.cymru/media/28925/art-learning-resource-welsh.pdf>

Sut alla i gynllunio ymweliad llwyddiannus â'r orielau celf?

- Ymweld â'r orielau ar ben eich hun cyn yr ymweliad.
- Rhannu'r disgyblion yn grwpiau llai.
- Rhoi cyfle i ddisgyblion weithio ar weithgareddau penodol o flaen gweithiau celf unigol.
- Sicrhau amrediad dda o weithgareddau sy'n cynnwys edrych, trafod a chreu.

Defnyddio ffyrdd gweledol o feddwl i helpu'r grŵp drafod y gwaith ac ymateb i gwestiynau.

Dewiswch un darlun i'w astudio'n fanwl

Beth oedd y peth cyntaf i chi sylwi arno wrth edrych ar y gwaith hwn?

Beth wnaeth i chi sylwi ar hynny?

Beth oedd rheswm Leonardo dros greu'r gwaith hwn, yn eich tyb chi?

Beth oedd Leonardo am ei ddweud?

Dechreuwch gyda chwestiwn – beth mae'r disgyblion eisiau ei wybod.

Beth sy'n gwneud cwestiwn da? Sut allwn ni ei ateb gyda'n gilydd?

Ffyrdd o annog trafodaeth:

30 eiliad i edrych, yna disgrifio'r llun o'r cof.

Un person i ddisgrifio a'r llall i ddarlunio'r hyn mae'n ei ddisgrifio.

Dewiswch un gair i ddisgrifio'r gwaith. Esboniwch pam.

Trafodwch deitl y darn. Beth mae teitlau yn eu dweud wrthym? Yw'r teitl yn ddefnyddiol ar gyfer dysgu mwy am y darn?



Leonardo da Vinci, *Brasluniau o faban*, tua 1504-8 RCIN 912562, Ymddiriedolaeth y Casgliad Brenhinol/© Ei Mawrhydi y Frenhines Elisabeth II 2018

Gwybodaeth oriel

Leonardo da Vinci: Dyn y Darluniau

Mae 2019 yn bum can mlynedd ers marwolaeth Leonardo da Vinci, un o'r artistiaid a'r gwyddonwyr pwysicaf erioed.

Roedd darlunio yn greiddiol i waith Leonardo. Defnyddiai ddarluniau i baratoi ei weithiau celf, i gofnodi'r byd o'i gwmpas, ac i archwilio ei syniadau gwyddonol.

Mae'r Casgliad Brenhinol yn berchen ar y casgliad gorau sydd wedi goroesi o ddarluniau Leonardo – dros 550 ohonynt, sydd wedi aros gyda'i gilydd ers marwolaeth yr artist. Gan fod golau'n difrodi papur, nid yw'n bosibl arddangos y gweithiau trwy'r amser. I nodi pumcanmlwyddiant ei farwolaeth, mae Ymddiriedolaeth y Casgliad Brenhinol yn cydweithio â 12 amgueddfa ac oriel i gynnal arddangosfeydd o'i ddarluniau ar draws y Deyrnas Unedig, ar yr un pryd. Yn haf 2019 bydd y darluniau hyn yn cael eu casglu ynghyd a'u harddangos yn y Queen's Gallery, Llundain. Bydd detholiad o'r gweithiau i'w gweld yn y Queen's Gallery, Caeredin yng ngaeaf 2019–20.

Bywyd Leonardo

Ganwyd Leonardo ger tref Vinci yng nghanol yr Eidal ar 15 Ebrill 1452. Erbyn iddo droi'n 20, roedd yn gweithio fel paentiwr yn Fflorens.

Tua 1482, symudodd Leonardo i Milan, lle bu'n astudio'r pynciau gwyddonol oedd yn berthnasol i artist, gan gynnwys y corff dynol, goleuni a lliw. Paentiodd Leonardo y *Swper Olaf*, y gwaith mwyaf ganddo sydd wedi goroesi, ar gyfer Ludovico Sforza oedd yn llywodraethu Milan. Treuliodd ddeg mlynedd hefyd yn gweithio ar gerflun anferth o geffyl, ond ni orffennwyd y project.

Erbyn 1499 roedd Sforza wedi'i ddisodli ac aeth Leonardo yn ôl i Fflorens, lle bu'n gweithio ar baentiadau gan gynnwys y *Mona Lisa* a *Brwydr Anghiari*. Ym 1506 dychwelodd eto i Milan, ac yno gwnaeth ei waith gwyddonol mwyaf, er na chyhoeddodd ddim o'i ymchwil. Bu farw Leonardo yn Amboise, Ffrainc ar 2 Mai 1519, yn 67 mlwydd oed.

Deunyddiau darlunio Leonardo

Mae holl ddarluniau Leonardo wedi'u gwneud ar bapur o fwydion dillad rhacs. Roedd papur yn ddrud felly byddai'n ei ddefnyddio'n gynnil ac yn cadw ei ddarluniau'n ofalus.

Trwy gydol ei oes byddai Leonardo'n darlunio ac yn ysgrifennu gyda phen ac inc. Câi'r ysgrifbin ei dorri o bluen adenydd gŵydd, a'r inc haearn ei greu drwy gymysgu halwynau haearn ag afalau derw.

Ar ddechrau ei yrfa byddai Leonardo hefyd yn darlunio gyda phwyntil metel – offeryn ysgrifennu, wedi'i wneud o arian fel arfer – ar bapur wedi'i orchuddio â haen o esgyrn mâl a phigment. Yn y 1490au rhoddodd Leonardo'r gorau i ddefnyddio'r dechneg anodd hon, a throi at sialc naturiol coch a du er mwyn cael amrediad ehangach o liwiau. Roedd hefyd yn defnyddio golchiad ysgafn gyda brws i ychwanegu

cysgodion, a dyfrlliwiau o bryd i'w gilydd ar ei fapiau.

Darluniau Leonardo yn y Casgliad Brenhinol

Pan fu Leonardo farw ym 1519, gadawodd ei ddarluniau a'i lyfrau nodiadau i'w ddisgybl Francesco Melzi, a drefnodd y darluniau yn ôl pwnc, a rhoi rhifau iddynt, fel sydd i weld ar sawl un o'r dalennau hyn.

Tua 1580, daeth y darluniau i feddiant y cerflunydd Pompeo Leoni trwy law mab Melzi, ac aeth ati i'w mowntio ar dudalennau o leiaf dwy albwm fawr. Roedd un o'r albymau hyn wedi cyrraedd Lloegr erbyn 1630, fel rhan o gasgliad Iarll Arundel. O fewn hanner can mlynedd roedd yr albwm yn berchen i'r brenin Siarl II – anrheg gan Wyr Arundel o bosibl.

Cafodd y darluniau eu tynnu o'r albwm yng nghyfnod y Frenhines Fictoria a'u mowntio'n unigol, ac ar ddechrau'r ugeinfed ganrif cafodd nifer ohonynt eu stampio â monogram Edward VII. Cafodd rhwymadau gwag albwm Pompeo Leoni eu cadw fel un o greiriau'r meistr – storfa am dair canrif i lawer o'r hyn a wyddom heddiw am Leonardo.

Darluniau sydd i'w gweld

Darluniau ar y plinth canolog:

System cardiofasgwlaidd a phrif organau menyw, tua 1509–10

Sialc coch a du, pen ac inc, golchiad melyn, ar bapur arlliwedig, wedi'i farcio trwodd

Mae'r darlun godidog hwn yn dangos gwaith ymchwil Leonardo i'r organau mewnol.

Yma mae'n cyfuno ei ganfyddiadau o astudio organau mewnol hen wr ac anifeiliaid, gyda chredoau hynafol, wrth geisio darlunio organau mewnol menyw.

Defnyddia Leonardo amrediad o dechnegau darlunio – mae'r gwythiennau yn gorgyffwrdd, mae'r galon wedi'i thrawstorri, ac mae'r holl system i'w weld o fewn amlinell allanol y corff.

Sylwer:

Gallwch weld ôl bawd Leonardo ar waelod y fraich ar ochr chwith y darlun. Ar yr ochr Verso gallwch weld ôl bys arall yn yr un lleoliad os edrychwch yn ofalus.

Verso *System cardiofasgwlaidd a phrif organau menyw*, tua 1509–10

Wedi'i farcio trwodd

Mae'r rhwydwaith o dyllau pin yn cyd-fynd ag amlinell y corff a'r organau mewnol sydd i'w gweld ar yr ochr arall. Roedd dau reswm dros wneud hyn. Trwy blygu'r ddalen a rhoi tyllau trwy'r ddwy ochr, gallai Leonardo sicrhau siâp a chymesuredd y corff. Gallai hefyd ddefnyddio'r ddalen fel templed, gan roi llwch sialc trwy'r tyllau ar ddalen lân o bapur er mwyn creu patrwm o ddotiau i wneud copi newydd o'r darlun.

Y sgerbwd, tua 1510-11

Sialc du, pen ac inc, golchiad

Dyma ddarluniad mwyaf cyflawn Leonardo o sgerbwd, o'r tu blaen, yr ochr a'r cefn, yn arddull darlunio pensaernïol. Mae rhai gwallau bychan – mae asgwrn yr ysgwydd yn rhy hir yn erbyn yr asennau, er enghraifft – ond roedd dealltwriaeth Leonardo o strwythur y corff heb ei ail.

Roedd Leonardo yn llaw chwith, ac mae ei nodiadau personol wedi'u hysgrifennu o chwith. *Mae cyfieithiadau i'w gweld ar y sgrin tu ôl i chi.*

Sylwer:

Mae'r nodyn ar dop y dudalen yn nodi bwriad Leonardo i benderfynu pa rannau o'r corff sy'n aros yr un fath a pha rannau sy'n ymestyn fwyaf – dosbarthiad braster trwy'r corff. Mae nodiadau Leonardo yn gymysgedd o'i syniadau am ddarluniau, ei arsylwadau a'i gwestiynau.

Verso *Cyhyrau'r wyneb a'r fraich, a nerfau a gwythiennau'r llaw*, tua 1510–11

Pen ac inc gyda golchiad, dros sialc du

Dyma enghraifft o arddull 'clytwaith' Leonardo wrth weithio, gyda darluniau a nodiadau ar amrediad o bynciau yn cael eu hychwanegu dros gyfnod o amser.

Mae'r ddau fraslun o law yn dangos llwybrau'r nerfau a'r rhydwelïau. Mae'r brasluniau o gyhyrau'r wyneb yn rhyfeddol o gywir – gellir adnabod pob strwythur a ddarlunnir yma.

Sylwer:

Mae llythrennau ar y darluniau o'r wyneb sy'n cyfateb i gyhyrau penodol. *h*, *o* a *t* yw cyhyrau dicter, *p* yw tristwch a *g* yw cyhyr brathu.

Darluniau wedi'u mowntio ar y wal chwith:

Ceffyl mewn proffil chwith, gyda mesuriadau, tua 1490

Pwyntil ar bapur parod llwydlas, yr amlinellau wedi'u hendorri, difrod lleithder ar yr hanner uchaf.

Yn ystod y 1480au, comisiynwyd Leonardo i greu cerflun efydd o geffyl i dad Ludovico Sforza, cyn ddug Milan. I'w helpu i adeiladu'r model clai ar gyfer y gofeb, bu Leonardo'n mesur ceffylau yn fanwl. Gallwch weld

ei nodiadau ynghylch mesuriadau ar y darlun, yn ogystal â brasluniau eraill manylach.

Sylwer:

Cafodd y darlun hwn ei blygu ar un adeg. Mae difrod lleithder ar yr hanner uchaf. Gallwch weld amlinell rhai darluniau, gan gynnwys yr ysgrifen ‘De Lionardo’.

Pen ceffyl (Testa) yw’r uned fesur. Mae Leonardo wedi ysgrifennu ‘T’ wrth fesur.

O’r model clai, gwnaeth Leonardo fowld ac adeiladodd ffowndri i greu’r cast. Ym 1494, cafodd 75 tunnell o efydd ar gyfer y gofeb ei atafael i greu gynnu canon. Cafodd y project ei ohirio. 5 mlynedd yn ddiweddarach cafodd Milan ei goresgyn gan luoedd Ffrainc. Cafodd model Leonardo o’r ceffyl ei ddefnyddio gan y Ffrancwyr i ymarfer saethu!

Dyluniad ar gyfer cerflun o geffyl, tua 1518–19

Sialc du ar bapur golchedig llwydfelyn

Tra’r oedd yn byw yn Ffrainc, gwnaeth Leonardo sawl dyluniad ar gyfer cerflun o geffyl, ar gyfer brenin Ffrainc mae’n debyg. Mae’r marchog yn y darlun hwn braidd yn ddifywyd, yn noeth heblaw am glogyn, ac yn codi ei law i drywanu gelyn.

Mae’r sialc du aneglur a’r raddfa ansicr yn rhoi awyrgylch freuddwydiol i’r darlun – gan gyferbynnu â manylder darlun cynharach Leonardo ar gyfer cofeb Sforza.

Map o afon Arno i’r gorllewin o Fflorens, 1504

Pen ac inc, golchiad glas a gwyrdd

Roedd Leonardo yn beiriannydd ac yn fapiwr uchel ei barch.

Yn haf 1504 gwnaeth arolwg o’r afon Arno i’r dwyrain a’r gorllewin o Fflorens, fel comisiwn gan lywodraeth y ddinas fwy na thebyg. Mae’r mapiau yn lliwgar ac mae nodiadau arnynt yn nodi lleoliad melinau, maint traethellau ac ati.

Coes dagrau Job, tua 1510–15

Sialc du, pen ac inc

Bu Leonardo’n darlunio planhigion gydol ei oes, gan ddilyn traddodiad naturiolaidd celf Eidalaidd y bymthegfed ganrif. Gwnaeth ei ddarluniau botanegol gorau wrth weithio ar baentiad o *Leda a’r Alarch*.

Ymarferiadau ar gyfer paentiad oeddent yn wreiddiol, ond buan y daethant yn frasluniau gwyddonol o’r iawn ryw.

Dagrau Job (*Coix lachryma-jobi* L.) sydd yn y darlun hwn – math o wair sy’n cynhyrchu grawn. Mae’r planhigyn yn frodorol i Asia, a dyma’r cofnod cyntaf ohono yng ngorllewin Ewrop.

Darluniau wedi'u mowntio ar y wal bellaf:

Dyn noeth yn sefyll, tua 1504–6

Sialc coch

Brwydr Anghiari oedd gwaith mwyaf uchelgeisiol Leonardo – murlun anferth o fuddugoliaeth y Fflorentiaid yn erbyn Milan. Ni orffennwyd y gwaith, a chafodd ei ddinistrio yn ddiweddarach.

Bu Leonardo'n paratoi'n drylwyr ar gyfer y project, gan astudio dynion noeth yn drefnus o'r tu blaen, y cefn a'r ochr, er mwyn bod yn gwbl hyderus wrth eu paentio. Yn y darlun hwn mae'r model yn sefyll yn hollol syth: daw Leonardo o hyd i'r cydbwysedd perffaith rhwng harddwch goddrychol ac astudiaeth wrthrychol o strwythurau'r corff.

Sylwer:

Mae'r llinellu ar y darlun yn creu golau a chysgod, sy'n dangos y cyhyrau.

Brasluniau o faban, tua 1504–8

Siarcol, pen ac inc

Treuliodd Leonardo lawer o amser yn gweithio ar baentiadau o'r *Forwyn Fair a'r Plentyn gyda Santes Ann* yn ystod dau ddegawd olaf ei fywyd, ac mae'n bosibl mai brasluniau ar gyfer un o'r lluniau hynny a geir yma.

Mae'r darlun yn dangos ystumiau naturiol, heb boeni llawer sut y byddent yn gweithio mewn llun sy'n cynnwys sawl person.

Darluniau wedi'u mowntio ar y wal dde:

Ymrithiwr wedi'i wisgo fel milwr, tua 1517-18

Sialc du, pen ac inc, golchiad, ar bapur garw

Ym 1516 symudodd Leonardo i Ffrainc er mwyn bod yn artist llys i Francis I. Credir ei fod wedi dylunio gwisgoedd lliwgar a chywrain er adloniant y brenin. Mae'r darlun hwn yn dangos ymrithiwr wedi'i wisgo yn lifrai llachar y Lansquenet (hurfilwyr o'r Almaen).

Er bod dylunio gwisgoedd yn ymddangos braidd yn ddi-nod o'i gymharu â gweddill ei waith, roedd Leonardo'n amlwg yn awchu am gyfle i arddangos ei waith addurnol cain.

Gwawdlun o ddyn moel a thew, tua 1485–90

Pen ac inc

Roedd gan Leonardo ddiddordeb mewn wynebau grotésg ar hyd ei oes, yn enwedig o gwmpas 1490 pan oedd yn astudio cymesuredd perffaith mewn pobl. Trwy fynd ati'n fwriadol i ystumio'r syniad o harddwch, gallai Leonardo greu delweddau o 'hagrwch delfrydol'.

Mae'r dyn tew hwn wedi'i fraslunio ar frys, sy'n awgrymu ei fod yn ddarlun o berson penodol, ac felly yn enghraifft brin o wawdlun yng ngwir ystyr y gair gan Leonardo.

Sylwer:

Caiff llinellu ei ddefnyddio i greu cysgodion a siâp ar gefn y pen.

Pen Sant Bartholomew, tua 1495 neu ddiweddarach

Sialc coch ar bapur parod coch

Y Swper Olaf oedd y gwaith mwyaf i Leonardo ei orffen. Fe'i paentiodd ar gyfer Ludovico Sforza yn ffreutur Santa Maria delle Grazia ym Milan.

Dyma fraslun gorffenedig o ben Sant Bartholomew, sydd ar ochr chwith y gwaith gorffenedig. Efallai mai braslun terfynol i Leonardo ei astudio wrth weithio oedd hwn, neu 'gopi glân' i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

Sylwer:

Mae'r sialc coch ar bapur coch yn cuddio amrediad y lliwiau.

Dim ond tua 4–5 darlun o'r *Swper Olaf* sydd wedi goroesi.

Dilyw, tua 1517–18

Sialc du, pen ac inc, golchiad

Roedd storm drychinebus yn taro'r Ddaear yn un o hoff destunau Leonardo ym mlynnyddoedd olaf ei fywyd.

Mae hwn ymysg y mwyaf gorffenedig o ddarluniau dilyw Leonardo, gyda mynydd yn chwalu yn dalpiau o grisial ac yn syrthio fel bwâu ar y llifogydd islaw. Ond nid darlun o anhrefn llwyr sydd yma – mae'n gynnyrch meddwl gwyddonol Leonardo, oedd wedi'i swyno gan ffurfiau a nodweddion gweledol cymylau, glaw, dŵr, sbwriel a llwch.

Sylwer:

Mae ffrydiau o ddŵr yn saethu allan o'r canol. Mae blociau sgwâr o garreg yn cwmpo, a chymylau glaw tywyll yn troelli lawr. Mae ei ddarluniau o ddilyw yn dangos ei ddiddordeb mewn dinistr.

Mae'r geiriau digyffro yn y cymylau yn dangos natur ddeuol y darlun hwn – yn llawn gweledigaeth ac yn ddamcaniaethol:

“Glaw. Byddi'n dangos graddau'r glaw yn cwmpo ar wahanol bellteroedd a gwahanol raddfeydd o dywyllwch, ac yn gadael i'r darn tywyllaf fod agosaf at ganol y trwch”.